# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY FIDEO GYNADLEDDA , Dydd Iau, 19 Hydref 2023 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Karen Edwards (Is-Gadeirydd), James Elson, Jon Harland, Carol Holliday, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Merfyn Parry, Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

**Aelod Arweiniol** – Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio, y Cynghorydd Win Mullen-James yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor ar gyfer eitem 7.
**Aelod Arweiniol** – Aelod Arweiniol Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor ar gyfer eitemau 5 a 6.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Cynghorydd a Chadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (PS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi ac Amgylchedd (TW), Pennaeth Cynllunio, warchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffordd (MJ), Rheolwr Prosiect: Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol (KM), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Rheolwr Prosiect (RV), Cydlynydd Craffu (RE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (NH).

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts ac Andrea Tomlin.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker.

Roedd y Cynghorydd Brian Jones wedi rhoi gwybod i'r Cadeirydd na fyddai'n gallu bod yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod yn sgil apwyntiad a oedd eisoes wedi cael ei drefnu ganddo, ond byddai'n ymuno yn nes ymlaen.

Cyn symud ymlaen â'r rhaglen, rhoddodd y Cadeirydd wybod, mewn ymateb i gais gan Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y byddai'n amrywio trefn yr eitemau ar y rhaglen er mwyn gallu ystyried adroddiadau'r Prif Swyddog ar sail olynol. Felly, byddai eitem 7, 'Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff', yn symud i eitem 6, a'r 'Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr' yn symud i eitem 7. Diolchodd i'r swyddogion a oedd yn bresennol am dderbyn y newidiadau i'r rhaglen.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorwyr canlynol gysylltiadau personol:

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gydag eitem 5 'Adolygu Tariffau Meysydd Parcio' (fel perchennog/gweithredwr mewn dwy dref yn Sir Ddinbych.

Y Cynghorwyr Alan James a Merfyn Parry – Eitem 7, 'Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr' gan fod y ddau'n aelodau, roedd James hefyd yn Is-gadeirydd ar y Grŵp Tasg a Gorffen, a byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor dan yr eitem arbennig hon.

## 3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 7 Medi 2023.   Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.***

<u>Materion yn codi</u>
Tudalen 8, 'Cofnodion' - Rhoddodd y Cydlynydd Craffu wybod bod aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Risg Llifogydd wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar a bod eu cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 23 Tachwedd 2023.

## 5 ADOLYGU TARIFFAU MEYSYDD PARCIO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Tariffau Meysydd Parcio'r Cyngor a'r strwythurau tariff cysylltiedig.

Amlygodd yr Aelod Arweiniol y pwysau ar gyllideb y Cyngor ac eglurodd fod y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd parcio'n ffordd o ddod ag arian i'r Cyngor.

Pwrpas yr adroddiad oedd egluro'r cynnydd arfaethedig mewn prisiau ym meysydd parcio'r Cyngor, newidiadau i gyfnodau codi tâl yn y meysydd parcio a'r posibilrwydd o gyflwyno ffioedd mewn rhai meysydd parcio sydd am ddim ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad fod y newidiadau arfaethedig i'r tariffau parcio'n rhan o benderfyniad Corfforaethol ar arbedion ac yn ffordd o ddod ag incwm i'r Cyngor.  Roedd y

cynigion hefyd yn cynnwys adolygu'r opsiynau talu sydd ar gael mewn meysydd parcio ac adolygu'r oriau lle mae'r Cyngor yn codi tâl.

Nid oedd tariffau meysydd parcio'r Cyngor wedi cael eu hadolygu ers 2016, felly, fel gwasanaeth, teimlwyd ei fod yn rhesymol eu hadolygu nawr yn sgil yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Nodwyd hefyd y byddai'r newidiadau arfaethedig i dariffau parcio'n gyfraniad cadarnhaol at sefyllfa ariannol y Cyngor.

Dan bwerau dirprwyol, y Pennaeth Gwasanaeth fyddai yn y pen draw yn penderfynu ar y newidiadau arfaethedig i dariffau parcio, fodd bynnag, nodwyd y byddai swyddogion yn gweithio'n agos gydag Aelodau i geisio eu barn ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhan arall o'r broses fyddai i swyddogion weithio gyda'r Tîm Cyfathrebu i ddatblygu Cynllun Ymgysylltu â grwpiau amrywiol a fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan y newidiadau.

Rydym yn bwriadu parhau i gynnig ein hamrywiol fentrau parcio am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys parcio am ddim ar ôl 3pm ym mhob un o'n meysydd parcio talu ac arddangos canol tref o ddiwedd Tachwedd tan 31 Rhagfyr bob blwyddyn. Roedd yr ychydig fannau parcio am ddim am gyfnodau byr a oedd i'w gweld yn rhai o'n meysydd parcio talu ac arddangos hefyd yn parhau. Yn olaf, byddai'r Cyngor yn parhau i gynnig 5 diwrnod parcio am ddim bob blwyddyn ym mhob Dinas, Tref a Chymuned y mae gennym ni gyfleusterau parcio talu ac arddangos ar waith ynddyn nhw.

Roedd Asesiad o Effaith ar Les ynghlwm â'r adroddiad i'w ystyried gan aelodau.

Arweiniodd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd yr Aelodau drwy bwyntiau allweddol yr adroddiad fel a ganlyn -

- Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf o dariffau parcio yn 2016.
- Wrth ystyried cynyddu'r prisiau parcio, ystyriodd y Cyngor y prisiau y mae Cynghorau Sir eraill Gogledd Cymru yn eu codi, a'r chwyddiant rhwng 2016 a 2023, gan gynnwys lwfans "diogelu ar gyfer y dyfodol" ar gyfer lefelau chwyddiant uchel parhaus.
- Mae prisiau ein meysydd parcio'n weithredol rhwng 8am a 5pm ar hyn o bryd. Cynigwyd ein bod yn ymestyn y cyfnod hwn fel bod angen talu rhwng 8am ac 11pm.
- Cynigwyd cynyddu costau trwyddedau parcio fel y nodir yn atodiad D (a oedd ynghlwm â'r adroddiad).
- Roedd y cynnig yn cynnwys gwaredu'r tariff 30 munud, Cyngor Sir Ddinbych oedd yr unig Gyngor a oedd yn cynnig y tariff hwn ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a gwahoddodd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

Gofynnodd aelodau am fanylion cynnal a chadw'r meysydd parcio fel y cytunwyd yn yr adolygiad diwethaf o'r tariffau yn 2016. Mynegodd aelodau bryderon am ymddangosiad cyffredinol y meysydd parcio yn eu wardiau.

Nododd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad bod cynllun buddsoddi ar waith, gyda chynllun buddsoddi'n cael ei ddatblygu ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd rhwng 2024 a 2029. Byddent yn hapus i gyflwyno hyn i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol. Roedd sawl enghraifft lle gwnaed buddsoddiadau mewn meysydd parcio gan gynnwys gosod peiriannau talu ynghyd â dulliau talu â cherdyn, arian parod a digyswllt. Roedd £2 filiwn wedi cael ei fuddsoddi mewn meysydd parcio hyd yma.

Holodd Aelodau am y ffaith nad oedd yr adroddiad yn cynnig unrhyw fanylion ar ffioedd parcio dros nos a nodwyd y byddai hyn yn fuddiol i berchnogion cartrefi modur. Roedd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn cydnabod bod cynnydd yn y galw am barcio dros nos ar gyfer perchnogion cartrefi modur a byddai hyn yn cael ei ystyried.

Gofynnodd Aelodau am amlder yr adolygiad o dariffau parcio ac ai 7 mlynedd oedd y cylch adolygu safonol. Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd bod y tariffau wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn yr adolygiad diwethaf yn 2016 ac felly cytunwyd na fyddai adolygiad arall yn cael ei gynnal am flynyddoedd yn dilyn hyn, gan fod costau ynghlwm â gweithredu cynnydd i'r ffioedd h.y. ail-raglennu'r peiriannau talu ac arddangos. Fodd bynnag, yn sgil y cyfraddau chwyddiant presennol, roedd angen adolygu tariffau'n amlach.

Mynegodd Aelodau bryderon am waredu'r tariff 30 munud gan ddatgan fod y cyhoedd yn manteisio ar y tariff hwn wrth ymweld â'u stryd fawr leol. Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd eu bod wedi trafod y tariff 30 munud yn ystod y broses gynnig a chytunwyd i waredu'r tariff. Roedd llefydd parcio arhosiad byr am ddim ar bob stryd fawr yn Sir Ddinbych. Nodwyd hefyd fod y data a gasglwyd yn dangos nad oedd cyfran uchel o'r cyhoedd yn defnyddio'r tariff 30 munud.

Cyfeiriodd Aelodau at yr Asesiad o Effaith ar Les ac arolwg a gwblhawyd ar effaith ffioedd parcio ar fusnesau lleol ar y stryd fawr a gofynnwyd am ragor o fanylion am hyn. Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd eu bod yn awyddus i ymgysylltu a chynnal sgyrsiau â busnesau lleol ar y stryd fawr i egluro iddynt pam bod y Cyngor yn cynnig cynyddu ffioedd parcio a'r ffordd orau i hyrwyddo llefydd parcio am ddim a'r mentrau a oedd ar waith.

Os byddai'r ffioedd yn cael eu cyflwyno ar ôl 5pm, gofynnodd aelodau a fyddai modd cynnig ffioedd ar gyfradd is ar ôl 5pm. Teimlwyd y gallai cyflwyno un tariff cyffredinol ar gyfer y dydd a'r nos gael effaith niweidiol ar grwpiau a digwyddiadau cymunedol ac ati. Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ostwng y ffioedd ar ôl 5pm, fodd bynnag, gellid ystyried hyn.

Gofynnodd aelodau am fannau gwefru ceir trydan a phwy oedd wedi talu am y rhain. Gofynnodd aelodau hefyd a oedd gofyn i unigolion a oedd yn defnyddio mannau gwefru dalu i barcio'r car, a phwy oedd yn derbyn yr arian. Mewn ymateb

i hynny, rhoddodd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd wybod i'r Pwyllgor bod dau brosiect ar waith ar hyn o bryd. I ddechrau, gosodwyd mannau gwefru ceir trydan mewn 8 maes parcio ar draws y sir, ac ariannwyd y rhain drwy grant gan Lywodraeth y DU a chyllid cyfalaf Sir Ddinbych. Roedd cwmni a gontractiwyd yn gyfrifol am reolaeth ddyddiol meysydd parcio gyda mannau gwefru. Rhannwyd yr incwm a gynhyrchwyd o'r mannau gwefru rhwng y cwmni a gontractiwyd a'r Cyngor. Ariannwyd yr ail brosiect a oedd ar waith ym meysydd parcio swyddfeydd y Cyngor yn bennaf ac yn cynnwys rhai meysydd parcio cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, ac roedd Sir Ddinbych yn derbyn yr incwm. Nodwyd bod defnyddwyr y mannau gwefru yn talu am barcio a'r defnydd o fannau gwefru ar wahân.

Gofynnodd Aelodau a fyddai cynnydd yn nifer y swyddogion gorfodaeth parcio yn unol â'r cynnydd yn yr oriau gweithredu ffioedd parcio. Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd y byddai angen ymestyn y gwaith gorfodaeth parcio, roedd y manylion ynghylch sut fyddai hyn yn cael ei reoli'n cael eu mireinio.

Soniodd Aelodau am effaith y cynllun parcio am ddim ar ôl 3pm ar brif strydoedd lleol a gofynnwyd a oedd unrhyw ddata ar yr effaith. Nododd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Stryd nad oedd unrhyw ddata ar gael am hyn ar hyn o bryd, fodd bynnag, roeddent wedi derbyn adborth cadarnhaol gan fusnesau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr a'r atebion a roddwyd i bryderon yr aelodau. Wrth gloi'r drafodaeth, cytunodd y swyddogion i archwilio'r awgrymiadau canlynol a gyflwynwyd gan aelodau yn ystod y drafodaeth ymhellach:

- cyflwyno ffioedd gostyngol/rhatach ar gyfer parcio gyda'r nos (h.y. rhwng 5pm ac 11pm er mwyn annog pobl i fynychu grwpiau/digwyddiadau cymunedol)
- y posibilrwydd o gadw'r cynllun parcio 30 munud am ddim neu gyflwyno ffi is ar gyfer hyd at 30 munud
- y posibilrwydd o gynnig llefydd parcio am ddim drwy'r dydd ar ddydd Sadwrn yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig yn hytrach na'r trefniant presennol o gynnig llefydd parcio am ddim ar ôl 3pm bob dydd
- trafod y ffioedd arfaethedig ar gyfer meysydd parcio unigol gyda phob Grŵp Ardal Aelodau cyn eu cyflwyno.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cyflwyno'r Cynllun Buddsoddi ym Meysydd Parcio Sir Ddinbych drafft i'r Pwyllgor cyn ei weithredu a gofynnodd a fyddai modd anfon rhagor o wybodaeth am yr incwm a'r gwariant mewn perthynas â meysydd parcio at Aelodau Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Nododd y Rheolwr Diogelwch Traffig, Parcio a Ffyrdd fod meysydd parcio Sir Ddinbych yn cynhyrchu £1.3 miliwn o incwm i'r Cyngor a chytunodd i rannu adroddiad gwybodaeth â'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Felly, ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***Penderfynwyd:***

***(i)*** ***yn amodol ar ystyried y materion a'r awgrymiadau a godwyd yn y drafodaeth ymhellach, cefnogi'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd parcio a'r newidiadau arfaethedig eraill sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad;***
***(ii)*** ***gofyn i'r Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio Sir Ddinbych 2024-29 gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w ystyried yn gynnar yn 2024 cyn ei gymeradwyo a'i fabwysiadu.***

Ar y pwynt hwn, newidiwyd trefn y rhaglen gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd fel a ganlyn: symud eitem 7 'y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff' i eitem 6 ar y rhaglen.

**6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT AILFODELU'R GWASANAETH GWASTRAFF**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd adroddiad diweddaru (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar gyflwyniad y Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff newydd.

Bwriad yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am gynnydd presennol y prosiect ac amlygu'r risg o ran cymeradwyo'r drwydded weithredol sydd ei hangen ar gyfer Cynllun Trosglwyddo Gwastraff newydd Dinbych yn amserol.

Eglurodd swyddog arweiniol Tîm Gweithredol Corfforaethol y Prosiect i Aelodau mai'r Gwasanaeth Gwastraff newydd oedd y newid gweithredol mwyaf a ddarparwyd gan y Cyngor ers blynyddoedd ac roedd llawer o waith cynllunio wedi cael ei gwblhau i gyrraedd y cam hwn.

Byddai'r gwasanaeth newydd yn cynnwys casglu gwastraff wedi'i ailgylchu yn wythnosol mewn cynwysyddion ar wahân a chasglu gweddill gwastraff y cartref bob mis.

Y brif broblem ar hyn o bryd oedd cael y drwydded weithredol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ni ellir gweithredu'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff heb y drwydded hon. Disgwyliwyd y byddai'r drwydded yn cael ei chyflwyno yn y Gwanwyn 2024. Roedd y Cyngor wedi cyflwyno'r ffurflen gais ar gyfer Depo Trosglwyddo Gwastraff Dinbych ym mis Ionawr 2023, fodd bynnag, roedd oedi wedi bod yn sgil croniad o drwyddedau i'w cyflwyno gan CNC. Roedd y broblem hon bellach wedi'i datrys, roedd y broses y disgwyliwyd iddi gymryd hyd at 4 mis i'w chwblhau bellach ar waith, ac roedd trafodaethau cadarnhaol wythnosol yn parhau gyda CNC. Byddai unrhyw broblemau a godir yn ystod y cyfarfodydd hyn yn cael eu huwchgyfeirio ar unwaith i Aelod Arweiniol a Swyddog Arweiniol y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Roedd bwriad i gyflwyno'r Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff o fis Mehefin 2024 a chwblhau'r depo erbyn mis Rhagfyr 2023.

Roedd angen canolbwyntio ar recriwtio staff a darparu'r cynwysyddion newydd i bob aelwyd yn y sir.

Byddai'r Tîm Prosiect yn mynychu bob cyfarfod Grŵp Ardal Aelodau ym mis Chwefror / Mawrth 2024 i gynnig rhagor o fanylion am gyflwyniad y Prosiect yn eu hardaloedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a Swyddog Arweiniol Gweithredol y prosiect am y diweddariad a chroesawyd cwestiynau gan Aelodau.

Nododd Aelodau bod yr ymweliad diweddar â depo gwastraff newydd Dinbych yn fuddiol iawn a gofynnwyd am ymweliad arall cyn cyflwyno'r gwasanaeth.

Holodd aelodau am y newid i wagenni trydan dan y gwasanaeth newydd a gofynnodd pwy oedd yn gyfrifol am y costau cysylltiedig. Nododd Swyddog Arweiniol Gweithredol y Prosiect bod ar y gwasanaeth newydd angen fflyd newydd o wagenni i ymdrin â'r cynwysyddion sortio ar ymyl palmant o fewn y Gwasanaeth Ailgylchu newydd. Fodd bynnag, byddai cerbydau gwastraff cyffredinol presennol yn parhau i fod yn addas ar gyfer darparu'r gwasanaeth gan nad oedd y model gwasanaeth yn newid, dim ond amlder y ddarpariaeth gwasanaeth. Er bod rhagor o gerbydau trydan wedi cael eu cyflwyno i'r fflyd, nid oedd y fflyd i gyd yn drydan gan fod angen sicrhau cadernid cylchoedd casgliadau gwastraff yn y sir.

Nododd aelodau eu pryderon am yr helynt posibl yn sgil cwynion gan y cyhoedd a nododd nad oedd hyn yn cael ei amlygu ddigon yn yr adroddiad. Darparodd Swyddog Arweiniol Gweithredol y Prosiect sicrwydd i aelodau eu bod yn deall y byddai gan breswylwyr rai pryderon am y newid. Yn y flwyddyn newydd (Ionawr 2024), byddai prosesau cyfathrebu arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith 6 mis cyn gweithredu. Nododd awdurdodau eraill a oedd eisoes wedi trosglwyddo i'r Gwasanaeth Ailgylchu Gwastraff newydd bod rhai pryderon ar ddechrau'r cyflwyniad. Fodd bynnag, unwaith yr oedd preswylwyr wedi dod i ddeall y system newydd, roeddent yn ei ffafrio.

Gofynnodd Aelodau beth oedd cyfanswm y costau a oedd ynghlwm â chyflwyno'r prosiect. Nododd Swyddog Arweiniol Gweithredol y Prosiect fod y Prosiect yn costio oddeutu £22 miliwn. Yn sgil yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, roedd y costau disgwyliedig wedi cynyddu. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £12 miliwn o gyllid, a byddai gweddill y costau'n cael eu talu gan gronfa wrth gefn y Gwasanaeth a thrwy Fenthyca Darbodus. Nodwyd y byddai'r costau rhedeg sydd ynghlwm â'r gwasanaeth newydd, unwaith y byddai'n weithredol, yn llai na chostau'r gwasanaeth ailgylchu a oedd ar waith ar hyn o bryd.

Roedd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion yn cydnabod, fod y risg fwyaf i gyflwyno'r Gwasanaeth newydd yn brydlon yn ymwneud â chael y drwydded i'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff gan CNC. Er nad oedd cynllun wrth gefn ar waith pe bai

oedi gyda chyflwyno'r drwydded, roedd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion yn hyderus, o ystyried y trafodaethau rheolaidd a oedd bellach yn mynd rhagddynt gyda CNC yn lleol ac yn genedlaethol, y byddai'r drwydded yn cael ei chyflwyno mewn pryd.

Nododd a chytunodd yr Aelodau bod angen bod yn gadarnhaol am y Gwasanaeth Gwastraff newydd a gweithio gyda swyddogion i hysbysu'r cyhoedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau Arweiniol a Swyddog Arweiniol Gweithredol am eu hadroddiad.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u> yn amodol ar y sylwadau a'r atebion uchod i'r cwestiynau a godwyd -***

***(i) cydnabod y cynnydd a wnaed hyd yma â darpariaeth y Prosiect, gan gynnwys yr ymdrechion a wnaed i sicrhau cymeradwyaeth brydlon o'r drwydded weithredol ar gyfer Gorsaf Drosglwyddo Gwastraff newydd Dinbych; a***
***(ii) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad fel rhan o'i ystyriaethau.***

## 7 ASESIAD O ANGHENION LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio adroddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i Aelodau.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru bob 5 mlynedd. Cyflawnodd y Cyngor yr asesiad rhwng Awst a Hydref 2021, a chafodd ei gyflwyno i LlC ar 24 Rhagfyr 2021.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet a chyflwyno'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru, cysylltodd deulu gydag angen, a oedd wedi gwrthod cymryd rhan yn flaenorol, â'r Cyngor i ofyn am gael eu cynnwys.

Yn dilyn adroddiad i Friffio'r Cabinet ar 9 Ionawr 2023 ail-sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cefnogi'r gwaith ar yr asesiad newydd. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen bellach wedi gorffen ei waith ac roedd yr adroddiad terfynol gan y Grŵp wedi'i atodi fel Atodiad 1. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu canlyniadau gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen.

Amlinellodd Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen gasgliadau'r grŵp a'r gwaith a gwblhawyd fel a ganlyn:

- Cafodd y Grŵp Tasg a Gorffen 4 cyfarfod a chynhaliodd yr ymgynghorwyr, ORS, gyfweliadau gyda'r teulu ychwanegol a chynhaliwyd adolygiad ysgafn gyda'r teuluoedd a oedd wedi ymgysylltu â'r broses asesu yn y gorffennol i

sicrhau bod eu canfyddiadau'n dal i fod yn berthnasol. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn fodlon bod y broses gywir wedi cael ei dilyn.

- Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn fodlon fel grŵp bod canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad yn ganlyniad o ddilyn methodoleg Llywodraeth Cymru a defnyddio dull cadarn o weithio.
- Fel grŵp, teimlwyd bod Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau gydag aelod etholedig o bob Grŵp Ardal aelodau wedi gweithio'n dda, ac y byddai'r dull yn fuddiol ar gyfer gwaith i'r dyfodol.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol i'r Grŵp Tasg a Gorffen am eu gwaith caled ac i'r Cynghorydd Scott am ei rôl fel Cadeirydd.

Pwysleisiodd y Rheolwr Prosiect Corfforaethol rwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor. Roedd Deddf Tai (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor gynnal a chyflwyno asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru. Roedd cyfrifoldeb hefyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

Roedd y Bwrdd Prosiect yn arwain y prosiect, gan gynnwys Uwch Swyddogion a'r Aelod Arweiniol, ac roedd yr holl waith yn cael ei oruchwylio gan y Grŵp Tasg a Gorffen.

Gan gydnabod yr angen a nodwyd o fewn yr Asesiad ar gyfer caeau preswyl, gofynnodd aelodau pam nad oedd angen ar gyfer darpariaeth dramwy wedi cael ei nodi. Rhoddodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion wybod er bod achosion o wersylla anghyfreithlon yn codi ar draws y sir o bryd i'w gilydd, dim ond am gyfnodau byr oedd yr achosion hyn gan amlaf ac roeddent yn cael eu rheoli a'u trafod yn fwy effeithiol drwy ddull rhesymegol a goddefol. Dyma oedd barn y gymuned Sipsiwn a Theithwyr hefyd.

Diolchodd y Cadeirydd am y diweddariad a chroesawyd cwestiynau gan yr Aelodau.

Soniodd Aelodau am y broses well sydd ar waith a'r gwaith rhagorol a gwblhawyd, a fyddai'n cefnogi datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod a'r Swyddogion am eu hadroddiad.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u>***

***(i)*** ***cymeradwyo casgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen bod methodoleg Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio'n briodol i'r dadansoddiad o angen;***

***(ii)*** ***cadarnhau ei gefnogaeth i'r dull o fynd ati i gyflawni Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych fel un cadarn ac un a oedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;***

***(iii)*** ***argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft diwygiedig i'w ailgyflwyno i Lywodraeth Cymru; a***

***(iv)*** ***chadarnhau ei fod, fel rhan o'i ystyriaeth o'r wybodaeth a ddarparwyd, wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les, Atodiad 3 i'r adroddiad - a gwblhawyd cyn yr asesiad cyntaf yn 2021 ac a adolygwyd yn 2023.***

## 8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Arweiniodd y Cydlynydd Craffu yr Aelodau trwy adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Craffu Cymunedau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Rhagfyr 2023, yn cynnig pedair eitem ar gyfer y rhaglen.

i. Ail gartrefi a thai gosod byrdymor.
ii. Cynllun Cludiant Cynaliadwy Drafft.
iii. Cyllidebau a Chynnydd Rhent Tai 2024/2025.
iv. Rhaglen Adfywio a Llywodraethu y Rhyl.

Rhoddodd y Cydlynydd Craffu wybod i'r Pwyllgor na fyddai'r adroddiad 'Ail gartrefi a Thai Gosod Byrdymor' yn barod ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion, gan eu bod yn aros am ganllawiau pellach ar drefn drwyddedu ar gyfer eiddo o'r fath gan Lywodraeth Cymru. Rhoddodd y pwyllgor ganiatâd i'w aildrefnu.

Byddai adroddiad ar Gynllun Buddsoddi Drafft Meysydd Parcio 2024 - 2029 yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer mis Chwefror / Mawrth 2024.

Anogodd y Cydlynydd Craffu Aelodau i nodi unrhyw gwestiynau neu faterion ar y Ffurflen Cynigion Aelodau (Atodiad 2) i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar 28 Tachwedd 2023.

Felly:

***Penderfynwyd:*** ***yn amodol ar aildrefnu'r eitem 'Ail Gartrefi a Thai Gosod Byrdymor' uchod, ynghyd â chynnwys adroddiad 'Cynllun Buddsoddi mewn Meysydd Parcio Drafft y Cyngor 2024-29' yn gynnar yn 2024, a gytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod, cadarnhau rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.***

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Rhoddodd y Cynghorydd Delyth Jones wybod i aelodau ei bod wedi cynrychioli'r Pwyllgor yn ddiweddar yng nghyfarfod Herio Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau Plant. Roedd hi'n aros am nodiadau'r cyfarfod ar hyn o bryd. Unwaith y byddai hi wedi'u derbyn, byddai hi'n briffio'r Pwyllgor ar y trafodion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r aelodau am fynychu'r cyfarfod a therfynwyd y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm